# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 13 Mehefin 2017

Amser: 08.30 - 08.59

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>David J Rowlands AC<br>Ann Jones AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar y cofnodion ar gyfer y cyfarfod gan y Pwyllgor i'w cyhoeddi.

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y ddadl fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ddwyn ymlaen y ddadl nesaf ar Gynnig Deddfwriaethol Aelodau o 12 Gorffennaf i 5 Gorffennaf, gan fod Dadl Aelod Unigol eisoes wedi'i threfnu ar gyfer 12 Gorffennaf.

- Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i aildrefnu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 5 Gorffennaf 2017 –**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Bwyllgorau

### 4.1 Cais ar gyfer Dadl Pwyllgor

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar gais gan y Pwyllgor Deisebau i gynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y ddeiseb 'Amddiffyn Cerddoriaeth Fyw yng Nghymru', sydd wedi cyrraedd 5383 o lofnodion. Dyma'r cais cyntaf o'r fath o dan y broses newydd a gytunwyd gan y Pwyllgorau Busnes a Deisebau yn gynharach eleni. Cytunwyd dros dro i drefnu'r ddadl ar gyfer 12 Gorffennaf.

## 5 Rheolau Sefydlog

### 5.1 Diwygio Rheolau Sefydlog: Proses y gyllideb

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes yr adroddiad terfynol ar ddiwygio Rheolau Sefydlog mewn perthynas â phroses y gyllideb. Byddai'r adroddiad yn cael ei osod y diwrnod canlynol, ochr yn ochr â chynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog ac i gytuno ar y protocol a gytunwyd rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Pwyllgor Cyllid. Bydd y ddau yn cael eu hychwanegu at yr agenda ar gyfer y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher nesaf.

## 6 Rheolau Sefydlog

### 6.1 Effaith Deddf Cymru 2017 ar Reolau Sefydlog y Cynulliad

Trafododd y Rheolwyr Busnes gynigion ar gyfer treialu strwythur dadl newydd a chytunwyd:

- i ddileu'r gofyniad bod y dogfennau ar gael i'r Ysgrifennydd Gwladol ar yr un pryd ag i Aelodau, ac i ddisodli'r darpariaethau ynghylch cyfranogiad yr Ysgrifennydd Gwladol gyda darpariaeth gyffredinol y gall y sawl nad ydynt yn Aelodau gymryd rhan mewn trafodion.
- i ddileu'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 11.21(i) bod amser ar gael bob blwyddyn i drafod rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU, a chaniatáu i'r llywodraeth

a/neu'r gwrthbleidiau i drefnu dadl ar y mater os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

- i ofyn am ragor o wybodaeth am yr arfer yn yr Alban a Gogledd Iwerddon o drafod rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU, yn absenoldeb gofynion Rheolau Sefydlog yno.
- i dreialu strwythur newydd ar gyfer rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru cyn toriad yr haf er mwyn rhoi proffil uwch i'r ddadl yn y dyfodol, gyda'r bwriad o newid y  Rheolau Sefydlog yn y tymor hwy.

## Unrhyw Fater Arall

Nododd y Llywydd ei llongyfarchiadau i'r Dirprwy Lywydd, a dderbyniodd Medal Eiriolaeth James M Shannon y Gymdeithas Gwarchod Tân Genedlaethol yr wythnos diwethaf.

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y byddai'r papur ar y swydd wag o ran cadeiryddiaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.